



SGWAD GWIRION SILLY SQUAD



Launching
17th July

Beth yw Her Ddarllen yr Haf?

Cynhelir Her Ddarllen yr Haf yn ystod gwyliau'r haf, a hynny mewn llyfrgelloedd ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Cafodd ei datblygu gan elusen The Reading Agency, ynghyd â rhwydwaith llyfrgelloedd cyhoeddus y Deyrnas Unedig ac, erbyn hyn, dyma'r digwyddiad blynyddol mwyaf ar gyfer hyrwyddo darllen i blant oedran cynradd.

Roedd **1,161** o blant yn **Sir Benfro** wedi cymryd rhan yn y Ras Ofod, sef Her Ddarllen yr Haf 2019.

Yn ôl Adroddiad yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol yn 2012, **dim ond un bachgen ym mhob pedwar** a oedd yn darllen y tu allan i'r dosbarth bob dydd; fodd bynnag, roedd **45%** o'r rhai a gymerodd ran yn Her Ddarllen yr Haf yn **Sir Benfro** yn fechgyn.

Eleni, mae Her Ddarllen yr Haf yn gwirioni gyda'r Sgwad Gwirion, a bydd yn bwydo'r dychymyg ac yn helpu'r plant i barhau i fod yn blant ac i gofleidio'r hwyl pan fo arnom angen hynny fwyaf. Ni allai darllen fod yn fwy pwysig i gefnogi iechyd a llesiant plant, ac mae Her Ddarllen yr Haf yn rhywbeth cyfarwydd mewn byd sydd wedi newid cryn dipyn; felly, gobeithiwn y bydd hyd yn oed mwy o blant yn cymryd rhan eleni.

Cymryd Rhan

Mynediad Ar-lein

cymru.summerreadingchallenge.org.uk/

Eleni bydd Her Ddarllen yr Haf ychydig yn wahanol. Bydd yna bwyslais ar wefan ddwyieithog newydd a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Ddarllen. Mae hon yn cynnwys proses gofrestru ddiogel, ac ardal ar gyfer proffil personol lle y gall y plant osod nodau darllen, adolygu llyfrau ac edrych ar argymhellion. Bydd yna hefyd fforwm i sgwrsio â ffrindiau, chwarae gemau, lawrlwytho ac argraffu gweithgareddau, ynghyd â gweithgareddau i'r teulu a chynnwys y gellir ei ddatgloi er mwyn cynnal diddordeb plant a theuluoedd trwy gydol misoedd yr haf.

Mynediad at Lyfrgell

www.sir-benfro.gov.uk/coronafeirws-cyngor-a-chanllawiau/llyfrgelloedd-yn-ailagor

Gall plant 'nawr fenthycu llyfrau o lyfrgelloedd Abergwaun, Hwlfordd, Aberdaugleddau, Doc Penfro a Dinbych-y-pysgod, a hynny trwy wasanaeth Archebu a Chasglu. Gellir archebu dros y ffôn neu drwy ffurflen ar-lein. Dewisir y llyfrau gan staff y llyfrgelloedd i'w casglu ar ddyddiad ac amser y cytunir arno. Bydd unrhyw un sy'n archebu llyfr hefyd yn cael pecyn rhoddion y Sgwad Gwirion, sy'n cynnwys poster, sticeri, pensil, tystysgrif a medal.

Mae e-lyfrau rhad ac am ddim hefyd ar gael i'w benthycu gan:

<https://www.sir-benfro.gov.uk/defnyddio-gwasanaethaur-llyfrgell/e-lyfrgell-247>



mwynhewch
eich Llyfrgell Leol



**THE
READING
AGENCY**

Beth yw'r manteision?

Mae'r plant sy'n cymryd rhan yn Her Ddarllen yr Haf:

- Yn fwy brwdfrydig dros ddarllen.
- Yn cynnal lefel eu hyder wrth ddarllen.
- Yn hybu eu hyder a'u hunan-barch.
- Yn elwa ar ymdeimlad o gymuned, cysylltiad ac agosrwydd.

Y modd y gall eich ysgol elwa:

- Mae Her Ddarllen yr Haf yn gynhwysol yn y bôn, a gall gyfrannu at gyflawniad eich holl ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion addysgol arbennig, disgyblion difreintiedig, a'r rhai mwyaf galluog.
- Mae'n gwella ac yn cefnogi mentrau a pholisïau darllen eich ysgol, ac yn cynnwys y rhieni a'r gymuned ehangach.
- Mae'n sicrhau bod eich disgyblion yn darllen yn ystod yr haf ac yn barod ar gyfer dychwelyd i'r ysgol yn yr hydref.
- Mae'n galluogi plant i fod yn annibynnol o ran eu darllen a'u dewis o ddeunydd darllen.
- Mae'n cefnogi cyfnod pontio llwyddiannus rhwng grwpiau blwyddyn.



Hyrwyddo Her Ddarllen yr Haf ymhlith eich disgyblion

- Defnyddiwch wefan yr ysgol, cylchlythyr yr ysgol neu flog y dosbarth i hysbysu'r rhieni a chefnogi'r rheiny y gallai cymryd rhan neu ymgysylltu â'r gwasanaethau llyfrgell fod yn anoddach iddynt.
- Yn waith cartref hwyliog dros yr haf, dywedwch wrth y disgyblion am gymryd rhan yn Her Ddarllen yr Haf.

Rhagor o wybodaeth

- Gellir dod o hyd i wybodaeth ac asedau ar gyfer athrawon yn y Pecyn Cymorth i Athrawon sydd wedi'i gadw yn y Dropbox:
www.dropbox.com/sh/oq1lmtu50abqcb1/AABtDxQOWcIkaSZKY0oRVy8la?dl=0
- Gallwch hefyd fynd i'r Parth Ysgolion ar wefan Her Ddarllen yr Haf .



Diolch yn fawr / Many thanks,

Pembrokeshire Libraries

Illustrations © Laura Ellen Anderson for The Reading Agency